



David Allen
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Ty Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

David.allen@hefcw.ac.uk

27 Mawrth 2017

Llythyr Cylch Gwaith 2017-18

1. Cyflwyniad

- 1.1. Fy uchelgais yw y gall addysg bellach barhau i gyflawni ein cenhadaeth genedlaethol, sef sicrhau cyfleoedd i bawb, codi safonau a chreu system addysg arloesol y gallwn fod yn falch ohoni. Rwyf yn hyderus y gallwn wireddu'r uchelgais honno.
- 1.2. Mae Symud Cymru Ymlaen yn amlinellu cred Llywodraeth Cymru bod ein ffyniant a'n sefydlogrwydd at y dyfodol yn dibynnu ar sgiliau a gwerthoedd pobl Cymru. Gall Cymru uchelgeisiol, Cymru sy'n dysgu, fynd ati i oresgyn yr heriau sy'n ein disgwyl, a datblygu gwlad sy'n fwy hyderus, yn fwy cadarn, ac sydd â gwell sgiliau.
- 1.3. Mae sector addysg bellach ac uwch llewyrchus yn hanfodol i'r weledigaeth hon – er mwyn addysgu pobl, a chefnogi busnesau a phrifysgolion wrth iddyn nhw ymdrechu i arloesi. Mae gan ein prifysgolion, yn awr yn fwy nag erioed, gyfleoedd a chyfrifoldebau fel sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. O'm rhan i, rwyf yn hollol ymrwymedig i'r dasg o sicrhau cynaliadwyedd darparwyr at y dyfodol.
- 1.4. Rydym mewn cyfnod o newid mawr ym maes addysg, a hynny ar bob lefel. Mae'r gwaith o ddiwygio'n ymdrech ar y cyd gan y Llywodraeth, ysgolion, colegau, prifysgolion ac asiantaethau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol. Credaf fod gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) rôl bwysig i chwarae, ac ysgrifennaf i nodi manylion y dyraniadau cyllido ar gyfer 2017-18, ac i nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2. Cyllid Addysg Uwch

- 2.1. Rwyf yn ymwybodol o'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y cyfnod ariannol ac academaidd sydd i ddod. Byddai'r trosglwyddiad olaf o'r cyllid ar gyfer gwariant ar y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

grant ffi dysgu yn 2017-18 wedi golygu bod cyfanswm y cyllid sydd ar gael i'r Cyngor wedi cwmpo i oddeutu £75m.

- 2.2. Roeddwn felly'n falch iawn fy mod wedi gallu dyrannu £25m i'r Cyngor fel rhan o'r rownd ddiwethaf o drafodaethau cyllidebol. Er bod hyn yn dal i fod yn llai na setliadau blaenorol y Cyngor, mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu y bydd incwm cyffredinol y sector yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

3. Ymchwil o Safon

- 3.1. Yn draddodiadol, mae'r Cyngor wedi cefnogi ymchwil gwreiddiol a chymhwysol, a hwnnw'n ymchwil rhagorol, drwy gyllid grant Ymchwil o Ansawdd Da. Mae tystiolaeth yn dangos bod prinder ymchwilwyr STEM yma yng Nghymru, o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Mae Strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Sêr Cymru, yn dechrau mynd i'r afael â'r prinder hwn drwy alluogi prifysgolion i recriwtio mwy o ymchwilwyr da, a hynny o bob cwr o'r byd. Fodd bynnag, rhaid i'r niferoedd hyn fod yn ychwanegol at y llinell sylfaen cyfredol o ran nifer yr ymchwilwyr. Rwyf felly'n disgwyl i'r cyllid grant Ymchwil o Ansawdd Da barhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor.

4. Rhoi Diamond ar Waith

- 4.1. Mae'n fwriad gennyf, o hyd, roi'r Pecyn Diamond llawn ar waith, gan ei ddiwygio ond ychydig. Fe gyflawnwn system gyntaf y Deyrnas Unedig, o 2018/19 ymlaen, sy'n gyson, yn flaengar ac yn deg yn y gefnogaeth y mae'n ei rhoi i fyfyrwyr israddedig llawn amser a rhan amser ac i fyfyrwyr ôl-raddedig. Credaf y byddwn, drwy hyn, yn arwain y byd o ran arfer gorau.
- 4.2. Bydd gan y Cyngor rôl hanfodol yn y gwaith o sicrhau y caiff y diwygiadau hyn eu gwneud yn llwyddiannus. Deallaf ein bod, gyda chydweithrediad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a CCAUC, eisoes yn cyflawni hyn yn gynt nag a ragwelwyd gan rai. Mae'r diwygiadau hyn yn newid sylweddol; gyda'r nod o'n symud tuag at ffordd arloesol o weithio ar gyfer y system gyfan. Y nod yn y pen draw, yw helpu i sicrhau cynaliadwyedd a sefydlogrwydd y sector at y dyfodol.
- 4.3. Rwyf wedi dweud yn glir bod gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i ddiogelu hawliau myfyrwyr sydd eisoes yn y system, ac fe barhawn i ddiogelu cohortiau cyfredol. Bydd hyn yn golygu y bydd y system newydd yn ddrytach i'w gweithredu am y ddwy flwyddyn ariannol gyntaf, ac y bydd unrhyw fuddion ariannol sy'n deillio o'n diwygiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o bum mlynedd.
- 4.4. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau fy mod yn disgwyl i setliad ariannol CCAUC gynyddu ym mhob blwyddyn ariannol yn ystod cyfnod y Llywodraeth hon. Mae hyn yn cydfynd â'r hyn yr wyf wedi'i gytuno â Phrif Weinidog Cymru yn ogystal â'r hyn a nodir yn Symud Cymru Ymlaen; hynny yw, y caiff Diamond ei roi ar waith yn gynnar, a hynny heb effaith andwyol ar gyllideb addysg uwch.
- 4.5. Yn y cyfamser, y gobaith yw y gall y Cyngor ddangos arweinyddiaeth gref i lywio a chefnogi'r sector drwy'r cyfnod interim hwn tan fod buddion a manteision Diamond yn cael eu gwireddu.
- 4.6. I baratoi i roi Pecyn Diamond ar waith, disgwyliaf i CCAUC fwrw ymlaen â'r gweithgareddau hyn yn benodol:

- gweithio gyda fy swyddogion i gasglu a chyhoeddi'n flynyddol brisiau 'basged o nwyddau', a rheiny'n brisiau wedi'u cytuno â'r Llywodraeth, ar gyfer pob sefydliad;
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio cwmpas a phennu amserlen ar gyfer goblygiadau ymateb y Llywodraeth yn y meysydd canlynol: safon ac ansawdd; ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth; cryfhau cynlluniau o ran ffioedd a mynediad; cyllido Cymdeithas Ddysgedig Cymru; a chynlluniau i reoleiddio'r system ran-amser yn llawn erbyn 2020-21;
- cynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda'i gwaith o werthuso diwygiadau Diamond drwy ystyried y sail gyfredol o dystiolaeth mewn perthynas â ehangu mynediad, a sut gellid cryfhau'r sail hon;
- paratoi cynigion ar gyfer rheoli'r broses o gyflwyno'n raddol daliadau ychwanegol i adlewyrchu'r gost o addysgu pynciau drytach (llawn-amser a rhan-amser).

5. Ymateb i Adroddiad Hazelkorn

- 5.1. Dylai 'cenhadaeth ddinesig' fod yn egwyddor sy'n llywio addysg uwch; dylai fod yn fesur o'r gwerth y mae sefydliadau yn ei roi ar wella lles cymunedau a chenhedloedd.
- 5.2. Drwy ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Hazelkorn, rwyf yn cydnabod bod angen i'r fframwaith ar gyfer ein system addysg ôl-orfodol fod yn fwy eglur ac yn fwy cydlynol. Ein nod yw synnwyr cryfach o bwrpas, a sicrhau cyfleoedd a chanlyniadau o safon ar gyfer ein dinasyddion. Yn fuan, awn ati i ymgynghori ar gynigion i sefydlu un awdurdod rheoleiddio i oruchwylio'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ei gyfanrwydd.
- 5.3. Er hynny, rwyf wedi nodi'n glir fy nghred fod angen gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu system ôl-orfodol fwy cydlynol, system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith y bu i CCAUC gyflwyno Strategaeth Addysg Uwch ar ddiwedd 2016, ac yn awr disgwyliaf i'r Cyngor weithio'n agos â'r Llywodraeth wrth inni fwrw ymlaen i wireddu'n gweledigaeth o system ôl-orfodol fwy cydlynol.
- 5.4. Rwyf yn falch eich bod wedi cytuno i barhau fel Cadeirydd CCAUC am dair blynedd arall. Credaf y bydd eich profiad yn werthfawr ac yn sicrhau'r sefydlogrwydd angenrheidiol yn y cyfnod hwn o newid sylweddol.
- 5.5. Hefyd, byddaf yn ceisio aelodau newydd i Gyngor CCAUC, rhai sydd â phrofiad mewn ystod ehangach o feysydd, gan gynnwys dysgu'n seiliedig ar waith, addysg bellach a chyflogaeth flaenllaw yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a hynny'n ychwanegol at y cryfder cyfredol ym maes addysg uwch, arloesi ac ymchwil.

6. Addysg Uwch o fewn Addysg Bellach a Datblygu Prentisiaethau Addysg Uwch

- 6.1. Mae llythyrau cylch gwaith blaenorol wedi annog y Cyngor i greu cymhellion ar gyfer astudio rhan-amser sy'n fwy arloesol a hyblyg, gan gynnwys datblygu ac ehangu cyrsiau Addysg Uwch a gynigir gan golegau Addysg Bellach. Hoffwn i'r Cyngor barhau i ymchwilio i'r cyfleoedd hyn, ac rwy'n disgwyl ichi gydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lywio cydweithio agosach rhwng darparwyr, er mwyn codi niferoedd y dysgwyr sy'n astudio ar lefel 4 a 5 ledled Cymru.

- 6.2. Rwy'n ddiolchgar am y brwdfrydedd a ddangoswyd gan y Cyngor ynghylch datblygu cymwysterau gradd dan arweiniad cyflogwyr y gellir eu cynnig fel rhan o Brentisiaeth Uwch. Yn unol â'r cylch gwaith diwygiedig a gyhoeddais ym mis Hydref 2016, rwy'n disgwyl i'r Cyngor barhau i gydweithio â'm swyddogion i flaenoriaethu a datblygu ymhellach y gwaith hwn er mwyn ychwanegu gwerth at y cynnig presennol o ran prentisiaethau.

7. Gwella'r Ddarpariaeth Ran-amser

- 7.1. Yn fy ymateb i Diamond a Hazelkorn, pwysleisiais gydnabyddiaeth y Llywodraeth bod dysgu gydol oes, dysgu rhan-amser a dysgu yn y gweithle yn hanfodol i ffyniant unigolion a ffyniant cenedlaethol. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y ddarpariaeth ran-amser yn parhau i ehangu a gwella. Rwy'n disgwyl i'r Cyngor barhau i flaenoriaethu darpariaeth ran-amser, yn benodol yng ngoleuni ei gydnabyddiaeth o gyfraniad a sefyllfa unigryw'r Brifysgol Agored fel sefydliad sy'n gweithredu ar lefel y DU ac sy'n gorfod addasu yn ôl buddsoddiad a blaenoriaethau pob gwlad o fewn y DU.

8. Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ac Ymgysylltu rhwng Prifysgolion ac Ysgolion

- 8.1. Bydd Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn 2017¹ a Rheoliadau 2017², yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i Gyngor y Gweithlu Addysg. Byddant yn rhoi'r rôl iddo o achredu rhaglenni astudio AGA a fydd yn cychwyn yn 2019. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r rôl o ddyrannu llefydd ar gyfer y rhaglenni newydd hyn.
- 8.2. Mae'n hollbwysig sicrhau na fydd myfyrwyr sy'n cofrestru ar raglen addysg gychwynnol athrawon cyn i'r trefniadau newydd ddod i rym dan anfantais annheg os na achredir un o gyrsiau neu raglenni astudio darparwr AGA cyfredol o dan y trefniadau newydd. Wrth inni fynd ati i ddiwygio AGA hyd 2021, ac efallai hyd 2023³, mae'n hollbwysig bod y Cyngor yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg.
- 8.3. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r Cyngor i reoli nifer athrawon drwy bennu targed cyffredinol ar gyfer yr athrawon a gaiff eu recriwtio i gyrsiau AGA yng Nghymru.
- 8.4. Wrth gynyddu'r ymgysylltu rhwng prifysgolion ac ysgolion, ni ddylid cyfyngu hynny i AGA. Drwy gyllid y Llywodraeth, rwyf wedi bod yn falch o nodi llwyddiant Prosiect Mentora Myfyrwyr leithoedd Tramor Modern yn benodol, a'i effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ysgol a myfyrwyr gradd. Rwy'n awyddus i weld dulliau partneriaeth o'r fath yn datblygu mewn disgyblaethau eraill. Byddwn yn disgwyl gweld prifysgolion yn cydnabod manteision ymgysylltu lleol o'r fath drwy gydweithio a buddsoddi ymhellach ar eu liwt eu hunain.
- 8.5. Rwy'n cydnabod y gwaith y mae CCAUC wedi'i wneud i helpu i feithrin gallu at ddibenion ymchwil addysgol, a hoffwn adeiladu ar y momentwm hwnnw er mwyn

¹ Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017

² Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017

³ Lle bydd sefydliadau wedi'u hachredu gan y Cyngor, byddant yn parhau i fod wedi'u hachredu hyd nes i un o'r amgylchiadau a nodir o dan Reoliadau 2017 (rheoliad 3(3)) godi gyntaf.

cyfhau'r berthynas rhwng ymchwil addysg o ansawdd uchel a darpariaeth AGA o fewn sefydliadau a rhyngddynt; dylid canolbwyntio ar feithrin gallu at ddibenion ymchwil a rhannu'r ymchwil honno, a defnyddio tystiolaeth o fewn y proffesiwn.

9. Tryloywder ynghylch Cyflogau Uwch

- 9.1. A threthdalwyr a myfyrwyr yn cyfrannu'n sylweddol i incwm ein sefydliadau, rwy'n disgwyl i sefydliadau fod yn dryloyw ac yn gwbl atebol am y defnydd o'r cyllid hwn. Cyhoeddodd CCAUC ei adroddiad cyntaf ar Gyflogau Staff Uwch ym mhrifysgolion Cymru y llynedd, ac rwy'n gobeithio gweld yr arfer hwn yn parhau'n flynyddol.
- 9.2. Yn Lloegr, roedd llythyr y Gweinidog Prifysgolion, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesi i HEFCE yn cynnwys adran ar effeithlonrwydd a oedd yn galw am ofal wrth ddyrannu cyflogau uwch. Roedd hyn o ddiddordeb i mi. Rwy'n cytuno â'r egwyddor a hoffwn weld uwch arweinwyr yn y DU yn arfer gofal llawer mwy nag a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- 9.3. Bydd fy swyddogion hefyd yn gweithio gyda CCAUC yn ystod y flwyddyn i ystyried sut y gallwn barhau i wella tryloywder a mynediad i wybodaeth am gyflogau uwch. Hefyd hoffwn weld mesurau y mae darparwyr wedi'u cyflwyno i gefnogi'r rheini sydd ar y lefel cyflog isaf yn cael eu gwneud yn gliriach a'u datblygu ymhellach.

10. Cyflog Byw

- 10.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig ers 2015. Hoffwn i'r Cyngor hefyd ddechrau gweithio gyda sefydliadau i greu sector cyflog byw, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi. Rwy'n disgwyl gweld cynnydd cyflym ar hyn. Mae'n siomedig mai dim ond un o'n prifysgolion sy'n gyflogwr cyflog byw achrededig.

11. Ymgysylltiad dinesig

- 11.1. Er mwyn cyflawni eu hymrwymiad i genhadaeth ddinesig, mae angen i ddarparwyr estyn y tu hwnt i'r campws ac at eu cymunedau. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i addysgu ac ymchwil ac ehangu mynediad, a dylai gynnwys gweithgareddau caffael. Hoffwn weld y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau ar y materion hyn, gan roi pwyslais ar effeithlonrwydd, cyfrifoldeb cymdeithasol ac effaith, a rhoi mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr/graddedigion/ cyflogwyr.

12. Rheoleiddio

- 12.1. Yn y flwyddyn academaidd 2017/18, bydd y system rheoleiddio Addysg Uwch newydd, a grëwyd yn sgil Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, yn cael ei rhoi ar waith yn llawn. Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y gwaith y mae wedi'i wneud hyd yma er mwyn rhoi'r trefniadau newydd ar waith. Dylai'r Cyngor barhau â'i waith i sicrhau bod y system reoleiddio newydd yn ei lle yn brydlon ac yn cael ei gweithredu'n effeithiol o fis Awst 2017 ymlaen. Dylai'r Cyngor hefyd barhau i fonitro cynnydd ac effaith y diwygiadau wrth i'r system reoleiddio newydd ennill tir. Rwyf hefyd yn disgwyl i'r Cyngor barhau i gadw llygad ar y datblygiadau sy'n digwydd yng ngweddill y DU, yn arbennig y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil yn Lloegr a'i oblygiadau ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.

13. Gadael yr Undeb Ewropeaidd

- 13.1. Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor a'r sector ehangach am chwarae rhan adeiladol yn fy Ngweithgor Brexit a thrwy fforymau eraill. Mae eu parodrwydd wedi fy annog i feddwl yn greadigol am sut rydym yn ateb yr heriau diamheuol, ond hefyd sut y gallwn roi hwb o'r newydd i ddull gweithredu rhyngwladol.
- 13.2. Mae staff a myfyrwyr o bob rhan o'r DU, Ewrop a'r byd yn ymuno â dinasyddion a myfyrwyr Cymru ac yn gwneud cyfraniad pwysig ar y campws ac mewn cymunedau ar draws ein gwlad. Mae hyn yn mynd yn bell y tu hwnt i effaith a chyfraniad ariannol, a byddwn yn croesawu'r Cyngor, wrth weithio gyda'r sector, i gadw'r cyfraniad ehangach hwn mewn cof yn ystod y cyfnod sydd o'n blaenau.

14. Ymgysylltiad Myfyrwyr

- 14.1. Rwy'n falch o'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth sicrhau cynrychiolaeth o blith myfyrwyr yn strwythur llywodraethu sefydliadau yng Nghymru. Wrth gwrs, mae mwy y gellid ei wneud a hoffwn pe bai'r Cyngor yn parhau i gydweithio â chynrychiolwyr y myfyrwyr i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar rôl myfyrwyr wrth siapio eu haddysg.

15. Blaenoriaethau Parhaus

- 15.1. Er bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i waith sy'n ymwneud â gweithredu'r diwygiadau a nodir gan Diamond a Hazelkorn, rwy'n disgwyl i'r Cyngor gynnal ei fomentwm a pharhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau hirdymor a sylfaenol Llywodraeth Cymru, sef ehangu mynediad, astudio rhan amser ac ymchwil. Yn ogystal â hynny, byddem yn disgwyl i'r Cyngor barhau i weithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er gwaetha'r newidiadau ariannol, i helpu i gyflawni ei amcanion strategol.
- 15.2. Bydd y blaenoriaethau a nodir uchod yn llywio datblygiad Cynllun Gweithredol y Cyngor ar gyfer 2017-18, ac rwy'n edrych ymlaen at dderbyn y Cynllun hwn erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017.
- 15.3. Cyhoeddir y llythyr hwn ar wefan Llywodraeth Cymru at 28 Mawrth 2017

Yn gywir

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Drafft Atodiad 1

Mae manylion dyraniadau ar gyfer Llinellau Gwariant cyllideb CCAUC ar gyfer 2017-18 wedi'u nodi isod (£s):

Gwariant Refeniw CCAUC 2017-18	£100,301,000
Dibrisiant CCAUC	<u>£ 90,000</u>
Cyfanswm	£100, 391,000

Mae gwariant refeniw CCAUC yn gyfuniad o'r llinellau cyllidebol canlynol a oedd ar waith yn y blynyddoedd ariannol blaenorol:

- Er Mwyn Ein Dyfodol;
- Costau rhedeg CCAUC; a
- derbyniadau CCAUC.

Y Cyngor fydd bellach yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar lefel y cyllid a ddyrennir i bob llinell gwariant. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn dal i ddisgwyl bod CCAUC yn darparu datganiad ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ar lefel eu costau rhedeg ar gyfer y flwyddyn, yn ogystal â rhoi amcangyfrif o'r derbyniadau y mae'n disgwyl eu derbyn yn ystod y flwyddyn, yn unol â gofynion y Ddogfen Fframwaith. Bydd angen i unrhyw ddiffygion yn y derbyniadau a ddisgwylir gael eu rheoli o fewn dyraniad cyllidebol cyffredinol CCAUC. Yn ogystal â'r symiau a amlinellir, mae £3.665m yn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r ymateb i Diamond - yn benodol, ar gyfer unrhyw gostau sy'n codi yn sgil y newidiadau systematig sy'n ofynnol yn y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr er mwyn gweithredu unrhyw newidiadau o ran cymorth i fyfyrwyr. Os nad oes angen y dyraniad hwn, bydd yr arian hwn ar gael i CCAUC. Bydd llythyr cylch gwaith wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyhoeddi pan fydd y sefyllfa yn gliriach.

At ddibenion enghreifftiol yn unig, yn ogystal â llinell gyllidebol Gwariant Refeniw CCAUC, mae gan CCAUC fynediad hefyd at y cyllid ar gyfer Ysgoloriaethau Cyfrwng Cymraeg (£330,000) na ellid ei ddefnyddio fel cymorth grant.

Mae'r trefniadau ar gyfer talu'r symiau hyn wedi cael eu cytuno drwy gytundeb adran 83. Felly, bydd angen i CCAUC allu nodi'r gwariant ym mhob un o'r meysydd hyn a chodi anfonebau ar wahân i Lywodraeth Cymru cyn talu'r symiau sy'n ddyledus.

Atodiad 2

Amodau'r Grant

Rhan o delerau ac amodau'r llythyr hwn yw y bydd CCAUC yn cydymffurfio â chynnwys y Ddogfen Fframwaith y cytunwyd arno gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Amod y Grant ar Gydlyniant Rhanbarthol

O dan adran 68(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992, mae Gweinidogion Cymru, drwy'r llythyr hwn, yn gosod amod ar y grant a wneir i'r Cyngor, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw i gydlyniant rhanbarthol wrth ddyrannu cyllid i'r rheini sy'n darparu addysg uwch.